DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

Cyrsiau i Addysgwyr

Hyfforddiant i fodloni anghenion staff ym mhob lleoliad

Tabl Cynnwys

01 Pwy Ydym Ni

02 Beth Rydym yn ei Gynnig

03 Ein Cyrsiau

04 Tystebau a Chostiadau

05 Cysylltwch â ni

Pwy Ydym Ni

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yw prif elusen addysg gwrth-hiliaeth y DU. Wedi'i sefydlu ym 1995, fe ddechreuon ni drwy ddefnyddio sêr chwaraeon a modelau rôl eraill i gynnwys plant a phobl ifanc yn y frwydr yn erbyn hiliaeth.

Mae'r gwaith uniongyrchol hwn gyda phlant a phobl ifanc yn mynd rhagddo gyda sesiynau'n cael eu cyflwyno i dros 20,000 o bobl ifanc y flwyddyn ar-lein ac yn bersonol ac mae'n llywio ein hyfforddiant gwrth-hiliaeth ymarferol ac wedi'i dargedu ar gyfer addysgwyr neu unrhyw staff eraill sy'n gweithio yn y sector addysg.

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wir yn credu bod yn rhaid i staff gael rhywle i siarad, rhannu a dysgu a magu hyder er mwyn dod yn ymarferwyr cynhwysol ac i greu gofod addysgol sy'n ddiogel a chroesawgar i bawb.

Beth Rydym yn ei Gynnig

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn ceisio diwallu anghenion yr holl gyfranogwyr boed yn athrawon, uwch reolwyr, llywodraethwyr ysgol, cynorthwywyr cymorth dysgu neu unrhyw staff eraill sy'n gweithio yn y lleoliad addysg.

Gallwn ddosbarthu yn bersonol neu ar-lein gyda hyd sesiynau a chysondeb wedi'u teilwra i weddu i chi.

Cyn yr hyfforddiant, byddwn yn trafod gyda chi unrhyw faterion yr hoffech i ni ymdrin â nhw a byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain yn ystod y sesiynau.

Mae'r gweithdai wedi'u cynllunio gydag ymarferoldeb mewn golwg, yn cael eu cyflwyno'n rhyngweithiol gan ein tîm profiadol ac yn darparu set lawn o adnoddau i'w gweithredu'n ddi-dor yn eich ysgol.

Gellir cynnal sesiynau unrhyw bryd gan gynnwys yn ystod gwyliau ysgol, diwrnodau HMS neu sesiynau gyda'r hwyr.

Rydym yn cynnig 3 lefel o gyrsiau, a amlinellir ar y dudalen nesaf.

Ein Cyrsiau

1 Cyflwyniad i Hiliaeth a Gwrth-Hiliaeth

Yn y cwrs rhagarweiniol hwn, bydd cyfranogwyr yn:

- datblygu dealltwriaeth o ddiffiniadau, amlygiadau ac effaith hiliaeth
- cael gwybod am eu dyletswyddau statudol, ynghyd ag adroddiadau allweddol ac argymhellion yn y cyd-destun Cymreig
- myfyrio'n feirniadol ar eu bydolwg eu hunain a sut y gallai hyn ddylanwadu ar eu harferion
- ystyried adnoddau cynhwysol
- meithrin hyder wrth egluro iaith briodol ac amhriodol
- deall sut i adnabod, ymateb i, cofnodi ac adrodd am hiliaeth

2 Dyfnhau ein Gwybodaeth o Hil a Hiliaeth

Mae'r sesiwn hon yn adeiladu ar y cwrs rhagarweiniol, gan ddisgwyl i gyfranogwyr feddu ar wybodaeth ymarferol mewn hiliaeth a gwrth-hiliaeth ond yr hoffent gael lle i ymchwilio'n fanylach i rai pynciau. Nod y sesiynau hyn yw dyfnhau dealltwriaeth trwy sgyrsiau parhaus sy'n manylu ar bynciau fel:

- Microymosodiadau
- Difaterwch a minimeiddio
- Lliwyddiaeth
- Meddiannu diwylliannol
- Strwythurau pŵer

3 Taith y Plentyn: Chwalu Rhwystrau i Gynhwysiant

Mae'r cwrs 'Taith y Plentyn' wedi'i dargedu at y rhai sydd â dealltwriaeth ddyfnach o hiliaeth.
Bydd y cwrs hwn yn tywys addysgwyr trwy archwiliad dwfn o'r ffactorau cymdeithasol, economaidd a chymdeithasol a all arwain at ddisgyblion o gefndiroedd ethnig amrywiol yn teimlo'n ddigroeso, yn anniogel neu hyd yn oed yn profi trawma seicolegol mewn lleoliad addysgol, gyda ffocws ymarferol ar sut i liniaru hyn ac adeiladu amgylchedd ysgol gynhwysol.
Mae ein hyfforddwyr yn hwyluso sgyrsiau dwfn, parhaus am ymagwedd ysgol gyfan at hiliaeth, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.
Cynhelir trafodaethau trwy gydol y flwyddyn ysgol i ganiatáu adroddiadau cynnydd mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Tystebau

Peth adborth ar ein hyfforddiant gan gyfranogwyr y gorffennol (2022)...

'Gwaith a hyfforddiant hanfodol i'w wneud ym mhob sefydliad'

'Diolch am sesiwn ardderchog. Roedd y sesiwn yn addysgiadol iawn ac roeddwn i wir yn teimlo bod y sesiwn yn tynnu sylw at y problemau mewn cymdeithas a sut i helpu a bod yn fwy gwybodus. Mae addysg yn allweddol i atal hiliaeth.'

'Rwy'n argymell Show Racism the Red Card yn fawr. Fe wnaethant hwyluso deialog a chreu gofod diogel i'n hathrawon siarad yn agored am eu profiadau eu hunain. Diolch.'

Costau

Cwrs	Hyd Delfrydol y Cwrs	Cost y pen
Cyflwyniad i Wrth-Hiliaeth	1 diwrnod	£50*
Dyfnhau Ein Gwybodaeth am Hil a Hiliaeth	1 diwrnod	£50*
Taith y Plentyn	6 x sesiwn 2 awr (bob hanner tymor)	£120*

*Yn seiliedig ar isafswm taliad o 10 cyfranogwr

O bryd i'w gilydd bydd angen i gyrsiau fod yn bwrpasol, gweler y costau ar gyfer y rhain yma:

Hyd y Sesiwn	Cost (ar-lein neu + teithio os yn wyneb yn wyneb)
1 awr	£200 ar gyfer 10 cyfranogwr + £20 am bob cyfranogwr ychwanegol
Hanner Diwrnod	£300 ar gyfer 10 cyfranogwr + £30 am bob cyfranogwr ychwanegol
Diwrnod Llawn	£500 ar gyfer 10 cyfranogwr + £50 am bob cyfranogwr ychwanegol

Cysylltwch â ni i drafod hyd gorau'r cwrs ar gyfer eich lleoliad neu i gael gwybod am ostyngiadau ar gyfer grwpiau mwy o faint!

Cysylltwch â ni nawr!

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

wales@theredcard.org